



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# **Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg 2021**

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

## Manylion cyswllt

[post@cyg-wlc.cymru](mailto:post@cyg-wlc.cymru)

0345 6033 221

---

# Cynnwys

---

1	Cyflwyniad	1
2	Safonau'r Gymraeg	2
3	Cynlluniau Iaith Gymraeg	2
4	Ystyriaethau wrth reoleiddio	3
5	Dulliau monitro – beth all sefydliadau ei ddisgwyl?	5
6	Cyhoeddi canfyddiadau	6
7	Codau ymarfer	7
8	Gwaith ymatebol	7
9	Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ymysg sefydliadau sydd o dan ddyletswydd	8
10	Cydweithio â rheoleiddwyr eraill	9
11	Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd	10

# 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi penderfynu cyhoeddi'r fframwaith hwn er mwyn egluro sut y bydd yn gweithredu ei raglen waith o reoleiddio safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg.
- 1.2 Drwy gyfrwng ei waith rheoleiddio, mae'r Comisiynydd yn gweithredu rhaglen o weithgareddau er mwyn monitro ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau, a chymryd camau pellach os oes angen.
- 1.3 Cyhoeddwyd Fframwaith Rheoleiddio cyntaf y Comisiynydd yn Ebrill 2016, fel yr oedd y safonau cyntaf yn cael eu cyflwyno. Cyflwynir Fframwaith diwygiedig yn 2021 sy'n rhoi mwy o sylw i draweffaith safonau nag a wnaed yn y cyfnod cychwynol.
- 1.4 Pwrpas y Fframwaith yw egluro sut mae'r Comisiynydd yn rheoleiddio cydymffurfiaeth yn gyffredinol. Mae'n egluro hefyd sut y bydd y Comisiynydd yn mynd rhagddi i hybu a hwyluso gweithrediad y drefn safonau lle mae hynny'n briodol.
- 1.5 Yn gyffredinol, anogir rheoleiddwyr i ddatblygu arferion rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg. Bydd y Comisiynydd yn defnyddio risg er mwyn rheoli'r defnydd o amser ac adnoddau, gan ganolbwyntio ar waith fydd yn cael y traweffaith uchaf ar gydymffurfiaeth.
- 1.6 Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg)<sup>1</sup> yn rhoi pwerau gorfodi i'r Comisiynydd. Nid yw'r fframwaith hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith gorfodi'r Comisiynydd. Ceir gwybodaeth am hynny yn y Polisi Gorfodi<sup>2</sup> ei hun. Nid yw'r camau a'r pwerau o fewn y fframwaith hwn yn cyfyngu nac yn amharu ar bwerau gorfodi'r Comisiynydd o dan y Polisi Gorfodi mewn unrhyw fodd.

---

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/part/5/enacted/welsh>

<sup>2</sup> [Polisi gorfodi \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

## 2 Safonau'r Gymraeg

- 2.1 Mesur y Gymraeg yw'r ddeddfwriaeth wnaeth greu safonau'r Gymraeg.<sup>3</sup>
- 2.2 Mae safonau'r Gymraeg yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu dylai sefydliadau beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- 2.3 Mae sefydliadau'n gorfod cydymffurfio â safonau yn y meysydd canlynol:
  - Cyflenwi gwasanaethau
  - Llunio polisi
  - Gweithredu
  - Hybu
  - Cadw cofnodion
- 2.4 Bwriad y safonau yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hynny yn gyson.
- 2.5 Hysbysiadau cydymffurfio yw'r dogfennau cyfreithiol sy'n nodi pa safonau (h.y. dyletswyddau) y mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â nhw, ac erbyn pryd. Y Comisiynydd sy'n rhoi hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau, ac mae'r rhain i'w gweld [yma](#) ar wefan y Comisiynydd.

## 3 Cynlluniau Iaith Gymraeg

- 3.1 Cyflwynodd Mesur y Gymraeg ddarpariaeth i drosglwyddo swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i'r Comisiynydd.<sup>4</sup>
- 3.2 Mae sefydliadau yn raddol yn trosglwyddo o weithredu cynlluniau iaith i safonau'r Gymraeg. Bydd sefydliadau cyhoeddus nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu safonau'r Gymraeg yn parhau i weithredu cynlluniau iaith o dan Ddeddf 1993.
- 3.3 Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<sup>5</sup> yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

---

<sup>3</sup> [Safonau'r Gymraeg \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

<sup>4</sup> [Cynlluniau iaith Gymraeg \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

<sup>5</sup> [c-deddf-yr-iaith-gymraeg-1993.pdf \(comisiynyddygybraeg.cymru\)](#)

- 3.4 Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn egluro pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â'r egwyddor hon, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am reoleiddio eu gweithrediad.

## 4 Ystyriaethau wrth reoleiddio

- 4.1 Mae Mesur y Gymraeg yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal â gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
- hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
  - safonau'r Gymraeg, gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio gyda'r safonau hynny a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r safonau hynny;
  - ymchwilio i'r ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4.2 Rhaid hefyd rhoi sylw i draweffaith gorfodi safonau'r Gymraeg ar hawliau ei defnyddwyr. Dyma sy'n llywio gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd wrth iddo weithio tuag at gynyddu'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- 4.3 Er mwyn cyflawni hyn bydd yn bwysig deall ac adrodd am brofiadau iaith defnyddwyr gan ddwyn sylw at rwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r Gymraeg. Bydd angen dadansoddi a ffurfio barn am gydymffurfiaeth sefydliadau â safonau.
- 4.4 Bydd y Comisiynydd yn gweithredu ar ganfyddiadau gan ddefnyddio amrediad o ddulliau, a phwerau i yrru newid, a thargedu ei adnoddau lle mae'r angen fwyaf.
- 4.5 Prif amcanion y Comisiynydd wrth reoleiddio perfformiad a chydymffurfiaeth sefydliadau yw:
- canolbwyntio ar gydymffurfiaeth:
  - cau bylchau gwybodaeth a gwella sut mae'r Comisiynydd yn darganfod diffygion
  - hybu hunan-reoleiddio
  - gweithredu ar ddiffygion
- 4.6 Bydd yn defnyddio cymysgedd o ddulliau rheoleiddio er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys:
- gwirio uniongyrchol
  - gwneud cais am dystiolaeth ysgrifenedig
  - cyfarfod â sefydliadau
  - ymgysylltu gyda defnyddwyr

- cynnal ymchwiliadau i amheuon o fethiant
- casglu a rhannu arferion effeithiol
- cynnal gweithgareddau addysgol
- rhoi cyngor i sefydliadau

## 5 Dulliau monitro – beth all sefydliadau ei ddisgwyl?

5.1 Dyma'r dulliau sydd ar gael i'r Comisiynydd er mwyn monitro cydymffurfiaeth sefydliadau:

**Gwirio uniongyrchol:** Cyrchu gwasanaethau fel cwsmer go iawn, er enghraifft drwy ddefnyddio gwasanaeth ffôn neu dderbynfa, neu wirio deunyddiau ar y we, e.e. tudalennau gwe, cyfryngau cymdeithasol, dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

**Gwirio cydymffurfiaeth gyda'r safonau atodol a chadw cofnodion:** Gwirio a yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau atodol a chadw cofnodion, (a dyletswyddau cyfatebol yn achos cynlluniau iaith), ac a ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Y safonau hyn sy'n rhoi cyfle i sefydliadau roi gwybod i ddefnyddwyr beth yw eu darpariaeth Gymraeg, a rhoi sicrwydd fod ganddynt drefniadau digonol i gadw golwg ar gydymffurfiaeth, i hyrwyddo defnydd o'u darpariaeth, ac i ddelio'n gadarn ag unrhyw gwynion.

**Cais am dystiolaeth ysgrifenedig:** Gofyn i sefydliadau am anfon tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch eu cydymffurfiaeth.<sup>6</sup>

**Cyfarfod casglu tystiolaeth:** Gofyn cwestiynau i gynrychiolwyr sefydliadau, er mwyn ceisio cael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth a deall dulliau cydymffurfio, a dilysu tystiolaeth a gasglwyd gan y Comisiynydd am berfformiad y sefydliad.

**Ymgysylltu:** Pan fo swyddogion o'r farn fod angen tystiolaeth ansoddol er mwyn deall perfformiad sefydliad yn well, gellir cynnal gwaith ymgysylltu, er enghraifft cynnal grŵp trafod lle gofynnir cwestiynau strwythuredig, neu arolwg ar-lein i ddefnyddwyr.

### Gweithredu pellach

5.2 Os yw'r Comisiynydd yn dod i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu'n dangos sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, bydd yn ystyried pa gamau gweithredu i'w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y Comisiynydd yn dilyn yr egwyddor o ddefnyddio'r ymyrraeth leiaf i gyflawni'r nod.

5.3 Mae'r camau y gellir eu cymryd yn cynnwys:

- Atgoffa sefydliad o ofynion y safon, cyfeirio neu dynnu sylw at god ymarfer neu ddarparu arweiniad neu gyngor i sefydliadau ynghylch gofynion y safon neu'r ddyletswydd dan sylw
- Cynnal cyfarfod gyda'r sefydliad i ddod o hyd i ddatrysiad i broblem benodol

---

<sup>6</sup> Ymhob un set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ceir safonau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd y Comisiynydd yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'u cydymffurfiaeth â dosbarthiadau gwahanol o safonau.



- Ysgrifennu at y sefydliad gan wahodd sylwadau i'r Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu ai i ymchwilio ai peidio
- Agor ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant
- Cynnal digwyddiad addysgol
- Rhannu enghreifftiau o arferion effeithiol
- Llunio dogfen gyngor
- Cynnal darn o waith i ddatrys problem systemig
- Cynnal arolygon a chyhoeddi canfyddiadau
- Cyhoeddi adroddiad (yn flynyddol) ar ganfyddiadau perfformiad yn sail i sefydliadau i gryfhau eu perfformiad.

## 6 Cyhoeddi canfyddiadau

- 6.1 Mae'r Comisiynydd yn rhoi barn annibynnol ar weithrediad y drefn safonau. Gwna hyn er mwyn rhoi hyder i bobl allu defnyddio'r iaith Gymraeg yn gynyddol a dwyn sylw at gamau y dylai sefydliadau eu cymryd.
- 6.2 Yn flynyddol bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad sy'n rhoi gorolwg o sut mae sefydliadau sydd o dan ddyletswydd yn defnyddio'r Gymraeg. Mae rhannu'r wybodaeth yn sail i hwyluso gwell cydymffurfiaeth yn ogystal â bod yn gyfrwng i rannu a throsglwyddo canfyddiadau a gwybodaeth bwysig yn eang.<sup>7</sup>

---

<sup>7</sup> [Beth yw adroddiad sicrwydd? \(comisiynyddygymraeg.cymru\)](http://beth.yw.adroddiad.sicrwydd?comisiynyddygymraeg.cymru)

## 7 Codau ymarfer

- 7.1 Er mwyn egluro beth yw gofynion safonau'r Gymraeg mewn ffordd ymarferol, mae'r Comisiynydd yn rhoi codau ymarfer i sefydliadau.<sup>8</sup>
- 7.2 Nid yw methiant sefydliad i gydymffurfio â darpariaeth o fewn cod ymarfer yn peri i'r sefydliad hwnnw fod yn agored i unrhyw gamau gorfodi. Nid yw cod ymarfer yn ddatganiad cyflawn neu awdurdodol o'r gyfraith. Dim ond Tribiwnlys y Gymraeg<sup>9</sup> a'r llysoedd sy'n gallu rhoi dehongliad awdurdodol o'r ddeddfwriaeth a gall penderfyniadau barnwrol dilynol effeithio ar gynnwys codau ymarfer.
- 7.3 Fodd bynnag, os yw'r Comisiynydd yn dymuno hynny, fe all ddibynnu ar fethiant sefydliad i gydymffurfio â chanllawiau o fewn cod ymarfer fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon.
- 7.4 Yn yr un modd, gall sefydliad ddibynnu ar y ffaith iddo gydymffurfio â chanllawiau o fewn cod ymarfer fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â safon.

## 8 Gwaith ymatebol

- 8.1 Bydd y Comisiynydd yn dewis gwneud gwaith ymatebol o dro i dro.
- 8.2 Byddant yn digwydd pan fo materion o bwys yn codi a ble gall ymwneud y Comisiynydd â'r mater gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol, er enghraifft, pan fydd darn newydd o ddeddfwriaeth yn cael ei gyflwyno neu pan gynhelir digwyddiad cenedlaethol megis etholiad.
- 8.3 Gall materion o'r fath fod yn rhai y mae modd eu rhagweld, neu yn rhywbeth ddaw at sylw'r Comisiynydd drwy ffynonellau eraill megis adroddiadau'r wasg a'r cyfryngau, gwybodaeth gan reoleiddwyr eraill a materion yr hysbysir y Comisiynydd amdanynt gan sefydliadau eu hunain.

---

<sup>8</sup> [Codau ymarfer \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

<sup>9</sup> [Tribiwnlys y Gymraeg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

## 9 Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ymysg sefydliadau sydd o dan ddyletswydd

- 9.1 Mae'r Comisiynydd yn gweithredu cynllun Iaith Gwaith.<sup>10</sup> Gall sefydliadau cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ddefnyddio'r cynllun i hybu defnydd o'u gwasanaethau.
- 9.2 Yn flynyddol, mae'r Comisiynydd yn cynnal diwrnod hawliau, lle caiff sefydliadau cyhoeddus lwyfan i hybu gwasanaeth sydd ar gael yn Gymraeg.<sup>11</sup>
- 9.3 Rhan bwysig o'r gwaith hybu a hwyluso yw cefnogi cydymffurfiaeth drwy chwilio am arferion effeithiol a rhannu llwyddiannau'n eang. Gwneir hyn gydag achosion lle daw yn amlwg bod modd i sefydliadau eraill ystyried efelychu neu addasu'r arferion a ganfyddir.
- 9.4 Cynhelir digwyddiadau i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau. Gan amlaf maent yn cynnig arweiniad ynghylch gofynion y safonau.
- 9.5 Mae'r Comisiynydd yn darparu cyngor. Gall fod ar ffurf dogfennau neu glipliau fideo ar ei wefan neu ar ffurf digwyddiad, unai drwy gyfrwng wedi ei ffrydio neu seminar.
- 9.6 Noder mai dim ond wrth ymwneud gyda sefydliadau yn gyffredinol y bydd y Comisiynydd yn gwneud gwaith hwyluso cydymffurfiaeth â safonau. Fel rheol, nid yw'n dilyn yr arfer o roi cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i sefydliadau yn unigol.

### Arferion effeithiol<sup>12</sup>

- 9.7 Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd eu darpariaeth Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn chwilio am arferion effeithiol sydd wedi eu sefydlu.
- 9.8 Unwaith y bydd enghreifftiau wedi eu hadnabod, bydd y Comisiynydd yn dadansoddi'r arferion hynny. Os byddant yn arferion y gellir dangos eu bod yn gweithio'n dda ac sydd wedi eu profi a'u dilysu dros gyfnod o amser, yna bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo'r arferion hynny ymysg sefydliadau eraill.

---

<sup>10</sup> [Iaith Gwaith \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](http://iaith.gwaith.comisiynyddygydraeg.cymru)

<sup>11</sup> [Ymgyrch 'Mae gen i Hawl' \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](http://ymgyrch.mae.gen.i.hawl.comisiynyddygydraeg.cymru)

<sup>12</sup> [Arferion effeithiol \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](http://arferion.effeithiol.comisiynyddygydraeg.cymru)

## 10 Cydweithio â rheoleiddwyr eraill

- 10.1 Mae adran 20 a 21 Mesur y Gymraeg yn caniatáu'r Comisiynydd i gydweithio a chynnal ymchwiliadau ar y cyd ag ombwdsryn a chomisiynwyr eraill os yw ymchwiliad i orfodi safonau yn bwnc sy'n ymwneud â mater all fod yn destun ymchwiliad ganddynt.
- 10.2 Hefyd, mae cyfrifoldeb cyffredinol ar y Comisiynydd i gydweithio ar y cyd â chyrrff craffu eraill er mwyn ychwanegu gwerth a chreu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion Cymru. Bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu a rhannu gwybodaeth mewn modd priodol, ac anelir at sicrhau na cheir bylchau na dyblygu rheoleiddiol. Bydd y Comisiynydd yn cyfarfod yn rheolaidd â phartneriaid craffu i drafod materion strategol a gweithredol sydd o ddiddordeb cyffredin.

# 11 Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd

- 11.1 Mae'r weithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 14 Mesur y Gymraeg. Mae manylion pellach am y weithdrefn hon ar gael ar ei wefan neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd.
- 11.2 Os bydd unrhyw sefydliad yn dymuno cwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, gellir cysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

[post@cyg-wlc.cymru](mailto:post@cyg-wlc.cymru)

0345 6033 221